

## Tystysgrif mewn Addysg Uwch: Iechyd a Lles Cymunedol



### Yn gwyno

Byddwch yn dysgu am anatomeg a ffisioleg ddynol, materion iechyd cymunedol, cyfraith gofal iechyd a moeseg, ac yn datblygu ystod o sgiliau ymarferol i'w defnyddio mewn iechyd a llesiant cymunedol. Byddwch yn gwella eich sgiliau cyfathrebu cyffredinol, gweithio mewn tîm, rheoli amser a TG fel eich bod yn gallu gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau.

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer gyrfa ym maes iechyd y cyhoedd neu reolaeth gofal cymdeithasol neu i'ch cefnogi i symud ymlaen o bosib i gwrs iechyd mewn prifysgol megis nyrso, bydwreigiaeth a gwyddoniaeth barafeddygol.

### Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych chi'n gweithio yn y sector iechyd a gofal ar hyn o bryd neu'n gweithio ynddo

... Ydych chi am ddatblygu eich gyrfa ymhellach

... Ydych chi'n ystyried symud ymlaen ymhellach i gwrs arall sy'n gysylltiedig â gofal iechyd



# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Beth a ddisgwylir ohonof i?

Beth sy'n ddisgwyliedig gen i?

Fel arfer, bydd angen o leiaf un o'r canlynol arnoch:

48 pwynt UCAS - cyfrifiannell tariffau UCAS  
<https://www.ucas.com/ucas/tariff-calculator>

Mynediad at AU pan fyddwch wedi cyflawni Diploma Llwyddiant gyda 45 Pas

Hefyd:

Llwyddiannau mewn tri phwnc TGAU gradd C neu'n uwch, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg Iaith (neu'n gyfwerth).

Sylwch hefyd y bydd ceisiadau i'r cwrs yn cael eu hystyried yn unigol. Manylir ar y gofynion mynediad arferol uchod ond os nad ydych yn bodloni'r meini prawf hyn, yna bydd eich profiad gwaith a bywyd yn cael ei ystyried.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'n bosibl y gallwch ymgeisio ar gyfer gradd nyrsio neu ofal iechyd (yn amodol ar gyflawni unrhyw ofynion mynediad ychwanegol ar gyfer y cwrs a ddewiswyd) neu symud ymlaen i flwyddyn dau o'n Gradd Sylfaen mewn Rheolaeth Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol, a gynigir yn ein parth dysgu yn Nhorfaen (Cwmbrân).

Fel arall, yn dilyn y rhaglen hon, gallech fynd ymlaen i gyflogaeth mewn amrywiaeth o sefydliadau gofal iechyd megis y GIG, prosiectau iechyd cymunedol, y sector preifat, gwaith adsefydlu neu ofal cymdeithasol. Gallwch hefyd wneud cais am gyrsiau eraill sy'n ymwneud ag iechyd, megis nyrsio, bydwreigiaeth a gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs hwn wedi'i ryddfrenio gan Brifysgol De Cymru.

Efallai y byddwch angen llyfrau o restr ddarllen, fodd bynnag fe'ch anogir i ddefnyddio'r llyfrgell ac adnoddau ar-lein.

Apply online at [www.colegwent.ac.uk](http://www.colegwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Rydym yn ail-ddilysu cyrsiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd a gwelliant

Yn Coleg Gwent, rydym yn adolygu ein cyrsiau'n rheolaidd mewn ymateb i batrymau newidiol o ran cyflogaeth a'r galw am sgiliau i sicrhau ein bod yn cynnig profiad dysgu sydd wedi'i gynllunio i adlewyrchu anghenion myfyrwyr heddiw a gofynion cyflogwyr yfory.

Os bydd cynnwys cwrs yn cael ei newid yn sylweddol yn ystod proses adolygu, byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu ac i drafod y newidiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ond beth bynnag fydd y canlyniad, ein nod yw darparu'r sgiliau a'r meddylfryd i'n myfyrwyr i lwyddo beth bynnag ddaw yfory. Eich dyfodol, diogel ar gyfer y dyfodol

Cod UCAS 4A82

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

